Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

AFA CYMRU
association for fostering and adoption
cymdeithas ar gyfer maethu a mabwysiadu

SEFYDLOGRWYDD CYNNAR CYMRU

Gwybodaeth i Rieni

LLEOLIADAU SEFYDLOGRWYDD CYNNAR CYMRU I BLANT MEWN ACHOSION GOFAL

Rydym yn eich cynghori'n gryf i drafod y daflen hon gyda'ch cyfreithiwr, a fydd yn gallu siarad â chi am y math hwn o leoliad maethu. Os ydym yn gwybod am eich cyfreithiwr, byddwn wedi anfon gwybodaeth am fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru atynt, gan gynnwys y daflen hon.

BETH YW YSTYR HYN I GYD?

Os ydych yn darllen hwn, fwy na thebyg ei fod yn golygu bod gan eich awdurdod lleol gynlluniau i gynnal achos gofal lle bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am ddyfodol eich plentyn. Pwrpas y daflen wybodaeth hon yw dweud wrthych am wasanaeth o'r enw Sefydlogrwydd Cynnar Cymru, i blant ifanc a'u rhieni yng Nghymru, pan fyddant yn wynebu achos gofal. Mae'n opsiwn a fydd yn cael ei ystyried ar gyfer eich plentyn.

Beth yw Sefydlogrwydd Cynnar Cymru?

Mae hwn yn lleoliad maethu gyda theulu a gymeradwywyd fel gofalwyr maeth ac fel rhieni mabwysiadol. Bydd eich plentyn yn byw gyda gofalwyr Sefydlogrwydd Cynnar Cymru tra bod yr holl opsiynau'n cael eu harchwilio. Mae'r teuluoedd hyn wedi ymrwymo i ailuno plant gyda'u rhieni os yw hynny'n bosibl. Ond, os yw'r llys yn penderfynu nad yw'ch plentyn yn gallu dychwelyd atoch chi neu fyw gydag aelod arall o'ch teulu, mae'r gofalwyr hyn yn barod i roi sicrwydd lleoliad mabwysiadu i'ch plentyn heb i'ch plentyn orfod symud eto.

Pam mae hyn yn cael ei ystyried ar gyfer fy mhlentyn?

Rydym yn gwybod bod symud nifer o weithiau yn gallu ansefydlogi plant yn fawr, yn enwedig os ydynt yn gorfod symud eto wrth aros am benderfyniadau. Nod Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yw lleihau nifer y weithiau y mae'n rhaid i blant symud a nifer y newidiadau y mae'n rhaid iddynt eu hwynebu, tra'u bod yn byw i ffwrdd oddi wrth eu rhieni, fel bod y plentyn yn cael y gofal gorau posibl tra bod y llys yn penderfynu ar ei ddyfodol hirdymor.

Beth mae hyn yn ei olygu i fi?

Byddwch yn cael eich diweddaru am yr hyn sy'n digwydd ac yn cael cyfleoedd i ddangos tystiolaeth eich bod yn mynd i allu cadw'ch plentyn yn ddiogel a rhoi cartref diogel iddo wrth iddo dyfu i fyny. Os nad yw hynny'n bosibl, y dewis nesaf yw i'r plentyn gael gofal gan aelod arall o'ch teulu. Os yw'r llys yn penderfynu na fydd eich plentyn yn gallu dychwelyd atoch chi neu at aelod o'ch teulu estynedig, yna mae'n debygol iawn y bydd y llys yn penderfynu mai mabwysiadu yw'r opsiwn gorau ar gyfer eich plentyn. Mae gennych yr hawl i gael cynrychiolaeth gyfreithiol yn ystod yr achos hwn ac mae'n bwysig eich bod yn ei defnyddio.

A fyddaf yn dal i weld fy mhlentyn?

Yn ystod yr achos gofal, byddwch yn cael cyswllt rheolaidd, dan oruchwyliaeth, gyda'ch plentyn. Bydd y llys yn cytuno ar gynllun gofal a fydd yn cael ei lunio a'i rannu gyda chi.

Unwaith y bydd y llys wedi penderfynu am y cynllun gofal ar gyfer eich plentyn, bydd y trefniadau cyswllt yn newid. Os yw'r llys yn penderfynu y bydd eich plentyn yn cael ei ddychwelyd atoch neu at aelod arall o'ch teulu, yna bydd y trefniadau cyswllt yn gweithio tuag at ailuno.

Os yw'r llys yn penderfynu y dylid mabwysiadu'ch plentyn, bydd cynllun cyswllt arall yn cael ei lunio i fanylu ar y math o gyswllt a fydd gennych wrth i'ch plentyn symud tuag at leoliad mabwysiadu. Bydd gweithiwr cymdeithasol eich plentyn yn meddwl am anghenion eich plentyn ar bob adeg, wrth lunio'r cynlluniau hyn.

Pwy sy'n penderfynu a ddylid mabwysiadu fy mhlentyn ai peidio?

Ymhob achos, bydd y llys yn penderfynu os yw'ch plentyn yn gallu dychwelyd atoch chi neu aelod arall o'ch teulu, ar sail tystiolaeth oddi wrthych chi ac adroddiadau a thystiolaeth gan weithwyr cymdeithasol, Gwarcheidwad y Plentyn, ac unrhyw weithiwyr proffesiynol eraill y gofynnwyd iddynt gynnal asesiad neu roi barn.

Beth allai ddigwydd i fy mhlentyn a beth mae'n ei olygu iddo?

Os yw'r llys yn penderfynu y dylid dychwelyd eich plentyn atoch chi neu ei leoli gydag aelod o'r teulu, yna bydd y gofalwyr yn helpu gyda hynny ochr yn ochr â gweithiwr cymdeithasol eich plentyn.

Os yw'r llys yn penderfynu mai mabwysiadu yw'r cynllun gofal i chi, yna byddai'r gofalwyr sydd wedi bod yn gofalu am eich plentyn yn mynd ymlaen i fod yn fabwysiadwyr. Fel yna, byddai'ch plentyn yn cael sicrwydd lleoliad mabwysiadu heb gael ei ypsetio trwy orfod symud at deulu a chartref newydd.

Sut y mae gofalwyr Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn cael eu dewis ac a ydynt yn cael eu paratoi'n dda?

Mae gofalwyr Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn cael eu paratoi'n dda iawn a'u hasesu'n ofalus. Byddant yn cael eu paru'n ofalus gyda'ch plentyn ar sail y wybodaeth sydd gennym amdanyn nhw a'ch plentyn, ac felly mae'n bwysig eich bod chi'n rhannu unrhyw wybodaeth a fydd yn eu helpu i gynnig y gofal gorau posibl i'ch plentyn e.e. unrhyw faterion iechyd sydd yn y teulu, neu berthnasoedd pwysig.

Byddant yn deall efallai na fydd eich plentyn yn aros gyda nhw, a byddant yn ymrwymo i gefnogi'r broses ailuno gyda chi neu aelod arall o'r teulu, os mai dyna beth fydd y llys yn ei benderfynu.

Rydym yn gwybod bod hwn yn gyfnod anodd i chi ac y byddwch wedi'ch ypsetio, a bydd hi'n anodd i chi feddwl am eich plentyn yn byw ar wahân i chi. Rydyn ni'n gobeithio y byddwch yn gallu cwrdd â gofalwyr eich plentyn yn ystod ymweliadau cyswllt ac rydyn ni'n gobeithio y byddwch yn teimlo'n hyderus y byddant yn rhoi'r gofal a'r sicrwydd y mae eu hangen ar eich plentyn. Rydyn ni'n gobeithio hefyd y byddwch yn hyderus fod y gofalwyr yn eich parchu ac yn eich deall ac y byddant yn gallu dweud wrth eich plentyn amdanoch chi a'ch cariad at eich plentyn.

Mae'r diagram hwn yn dangos y broses ar gyfer achos gofal a rôl gofalwr maeth SCC



Efallai y bydd gennych gwestiynau eraill am Sefydlogrwydd Cynnar Cymru nad ydym wedi eu hateb, ac rydym yn eich cynghori'n gryf i drafod y daflen hon gyda'ch cyfreithiwr, a fydd yn gallu siarad â chi am y math hwn o leoliad maethu.